

# CYNLLUN GWELLA YSGOL PEN BARRAS

(Yn deillio o adroddiad Hunan Arfarnu'r ysgol)

Pennaeth: Headteacher:	Mr Marc Jones
Cadeirydd: Chair:	Mr Huw Hilditch- Roberts
Dyddiad: Date:	Medi 2018

2018 – 2019



# Cynllun Gwella 2017-2018

## Gwerthusiad o gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau

### **Blaenoriaeth 1 – Safonau - Cysoni systemau er mwyn datblygu ymhellach sgiliau darllen y disgyblion**

Mae nifer o weithdrefnau a systemau addysgu wedi cael eu gweithredu yn y dosbarthiadau gan arwain at gynnydd ym mrwdfrydedd y plant i ddarllen. Mae mwy o gyfleoedd i blant ddarllen i bwrpas a thasgau a gweithgareddau heriol yn eu gwneud yn well darllenwyr. Mae grwpiau o blant wedi cael eu targedu a chefnogaeth ac ymyrraeth effeithiol mewn lle i godi safonau. Roedd lleihad yn y nifer o ddisgyblion a brofwyd yn cael sgôr o llai na 85 yn y ddwy iaith 2017 – Cymraeg 7.8%, Saesneg 10.3%. 2018 - Cymraeg 5.2%, Saesneg 6.9%. Gwelwyd cynnydd yn y nifer o ddisgyblion a brofwyd yn cael sgôr o 115+ yn y ddwy iaith, 2017 – Cymraeg 28.4%, Saesneg 21%. Cymraeg 29.8%, Saesneg 23%. Cynnydd cyfartalog mewn darllen (INCERTS) flwyddyn dwethaf oedd – Cymraeg = 0.66 lefel, Saesneg = 0.67, 2018 - Cymraeg +.62, Saesneg +.70.

### **Blaenoriaeth 2 – Safonau - Datblygu sgiliau ymresymu rhifyddol y plant**

Bu'r staff yn cyflwyno mwy o dasgau ymresymu rhifyddol a gweithgareddau i blant ddefnyddio a chymhwyso eu mathemateg ar draws y cwricwlwm. Roedd grwpiau penodol yn cael eu targedu am gymorth pellach er mwyn codi safonau. Creuwyd llyfryn i'w rannu gyda rhieni iddynt fedru helpu eu plant gartref, gyda nifer o awgrymiadau ar y ffordd orau i ddysgu mathemateg a rhifedd i'r plant. Llwyddodd mwy o blant i gael >85 yn y profion rhesymu cenedlaethol. Cyfartaledd Blwyddyn 2-6 wedi codi o 89% i 94.6%. Moedd mwy o blant wedi cael >115 yn y profion rhesymu cenedlaethol. Cyfartaledd Blwyddyn 2-6 wedi codi o 18.6% i 21%.

### **Blaenoriaeth 3 – Lles ac agweddau at ddysgu - Meithrin ein disgyblion i fod yn ddysgwyr mwy annibynnol**

Mae'r athrawon yn fwy hyderus i gynllunio a chyflwyno nifer o dasgau symbylus i ddatblygu gallu'r disgyblion i weithio'n annibynol. Mae disgyblion yn fwy ymwybodol o sut i wella eu gwaith eu hunain ac yn fwy parod i weithio'n annibynol a dod yn ddysgwyr effeithiol. Mae mwy o ddiddordeb gan y plant yn yr hyn maen nhw'n ei ddysgu. "Lle mae diddordeb mae dysg" a balchder gan y plant yn eu gwaith wrth deimlo eu bod nhw wedi cael dylanwad ar eu dysgu eu hunain. Mae'r staff yn gyson o fewn adrannau yn y modd mae plant yn derbyn targedau dysgu ac mae'r plant yn ymwybodol o'u targedau ac yn gwybod beth i'w wneud i wella eu gwaith. Mae'r plant yn adnabod y meini prawf llwyddiant ac yn cymryd cyfrifoldeb dros eu cynnydd eu hunain.

### **Blaenoriaeth 4 – Arweinyddiaeth a Rheolaeth - Datblygu ymhellach systemau monitro safonau a thracio cynnydd disgyblion**

Mae Cynllun Datblygu'r Ysgol yn deillio o'r HA, ac yn ystyried yr holl ddata a thystiolaeth am safonau ac agweddau o fywyd yr ysgol, gyda rhanddeiliaid yr ysgol yn ymwybodol o flaenoriaethau'r ysgol ac yn weithredol wrth geisio gweithredu agweddau penodol er mwyn cyrraedd targedau. Mae systemau pendant mewn lle i fonitro a thracio cynnydd plant, gyda'r staff, tim rheoli a llywodraethwyr yn deall eu rôl wrth arfarnu safonau o fewn yr ysgol. Mae ethos o fod yn gyfaill beirniadol yn bodoli gyda phawb yn awyddus i ddysgu ac addasu eu dulliau addysgu er mwyn codi safonau.

## Cynllun Gwella Pen Barras 2018-19

### Blaenoriaeth 1

#### Blaenoriaeth 1 – Ymestyn a hyrwyddo profiadau dysgwyr yn y Cyfnod Sylfaen ( bloc adeiladu 3 , Cwricwlwm i Gymru-cwricwlwm am oes)

**Pam dewis y flaenoriaeth yma?** Ers symud i'r adeilad newydd roedd rhaid ail-gynllunio'n llwyr yr ardaloedd dysgu, ail strwythuro staffio a datblygu'r addysgu i gyd fynd ag egwyddorion dysgu yn y Cyfnod Sylfaen.

**Targed** – Ennyn diddordeb, ysgogi brwdfrydedd a meithrin hyder yn ein plant i gyflawni tasgau o safon uchel. Bydd safonau uchel yn cael eu cynnal gyda tharged o 95% o'r plant yn cyrraedd y dangosydd pwnc craidd a chyfartaledd o 40% yn cyflawni deilliant 6+ ar draws y meysydd dysgu.

**Arweinyddion â chyfrifoldeb am y flaenoriaeth yma** – S Roberts + E Rogers

**Aelodau is-bwyllgor blaenoriaeth 1** – Staff y Cyfnod Sylfaen

Ardal i'w datblygu	Dyddiad	Cyfrifoldeb	Hyfforddiant / Cost	Meini Prawf Llwyddiant	Dyddiad Gwerthuso
Ail strwythuro staff dosbarthiadau Meithrin a Derbyn ac ym mlwyddyn 1+2	<b>Medi 2018</b>	<b>Tim Rheoli + Llywodraethwyr</b>	-	Bydd staff yn gweithio o fewn timau newydd (uned dan 5 ac uned o dan 7). Bydd cydbwysedd rhwng yr adrannau o ran profiad, arbenigedd a diddordebau staff. Bydd cwricwlwm eang a diddrol yn cydfynd ag egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cyfoethogi profiadau'r plant.	<b>Medi 2018</b>
Pennu arweinydd i'r Uned dan 5 ac iddi fod ar y tim rheoli	<b>Medi 2018</b>	<b>Tim Rheoli + Llywodraethwyr</b>	<b>£2,667 CAD2</b>	Bydd ER yn arwain yr uned dan 5 gan gynnig cyfeiriad clir a sicrhau cydweithio agos rhwng y staff, fel bo'r plant yn cael ystod eang o brofiadau difyr.	<b>Hydref 2018</b>
Pennu cyfrifoldebau newydd i'r staff i fod yn gyfrifol am wahanol ardaloedd	<b>Medi 2018</b>	<b>SR + ER + Staff CS</b>	-	Byddwn yn defnyddio arbennigedd a diddordeb y staff i ddarparu'r profiadau gorau i'r plant ymhob ardal.	<b>Hydref 2018</b>
Amserlennu gweithgareddau a threfn y dydd	<b>Medi 2018</b>	<b>SR + ER + Staff CS</b>	<b>Cyfarfodydd Staff CS</b>	Bydd amserlen pendant yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u dyletswyddau, a bod y plant yn cael profi'r holl weithgareddau o fewn yr ardaloedd.	<b>Medi 2018</b>
Hyfforddi staff i fedru arwain ac addysgu yn yr ardaloedd dysgu	<b>2018-2019</b>	<b>SR + ER + Staff CS</b>	<b>£2,000</b>	Bydd staff yn cael eu hyfforddi drwy fynd ar gyrsiau a rhannu arfer da o fewn yr ysgol a gyda staff o ysgolion eraill. Byddant yn fwy hyderus wrth gyflwyno profiadau newydd i'r plant.	<b>Mehefin 2019</b>
Datblygu'r ardal ddysgu tu allan.	<b>2018-2019</b>	<b>SR + ER + Staff CS</b>	<b>£6,000</b>	Bydd ardaloedd dysgu pwrpasol i'r plant ddatblygu eu sgiliau a chael profiadau dysgu gwerthfawr.	<b>Ionawr 2019</b>
Cynllunio effaith stryd ar y buarth a sefydlu siopau o siediau	<b>Hydref 2018</b>	<b>SR + ER + Staff CS</b>	<b>Sir Ddinbych</b>	Bydd pob math o brofiadau, gweithgareddau chwarae rôl a phrofiadau pob dydd yn cael eu datblygu.	<b>Ionawr 2019</b>
Creu ardaloedd dwr/tywod/adeiladu	<b>Medi 2018</b>	<b>SR + ER + Staff CS</b>	<b>£1,000</b>	Bydd cyfle i blant ddatrys problemau a ddatblygu eu creadigrwydd drwy gydweithio yn yr ardaloedd.	<b>Hydref 2018</b>
Creu ceginnau mwd	<b>Medi 2018</b>	<b>SR + ER + Staff CS</b>	<b>£2,000</b>	Bydd cyfle i blant ddatblygu eu sgiliau creadigol yn yr awyr agored.	<b>Ionawr 2019</b>
Creu ardal arddio	<b>Medi 2018</b>	<b>SR + ER + Staff CS</b>	<b>£300</b>	Bydd y plant yn dysgu sut mae planhigion yn tyfu a sut mae gofalu amdanynt. Bydd y plant yn dysgu wrth weld y llysieuyn yn tyfu a sut	<b>Mehefin 2019</b>

				mae bwyd yn mynd o'r pridd i'r plat.	
Datblygu'r ysgol goedwig	<b>Hydref 2018</b>	<b>SR + ER + Staff CS</b>	<b>£100</b>	Bydd y plant yn dysgu am fyd natur awrth wneud gweithgareddau yn yr awyr agored.	<b>Mehefin 2019</b>
Darparu dillad addas i blant weithio tu allan ymhob tywydd	<b>Medi 2018</b>	<b>SR + ER + Staff CS</b>	<b>£70</b>	Bydd plant yn cael mynediad i'r ardal ddysgu tu allan ymhob tywydd.	<b>Hydref 2018</b>
Creu dyddiadur heriau i'r plant lenwi	<b>Medi 2018</b>	<b>SR + ER + Staff CS</b>	-	Bydd y plant yn datblygu hunaniaeth a dysgu sut i weithio'n annibynol wrth gofnodi pa dasagau a gwblhawyd.	<b>Ionawr 2019</b>
Creu caffï / cwt pecyn	<b>Medi 2018</b>	<b>SR + ER + Staff CS</b>	-	Bydd y plant yn dod yn fwy annibynol wrth gymryd cyfrifoldeb am y caffï, drwy baratoi a gosod y bwyd / talu am becyn / derbyn arian a rhoi newid/ a thacluso ar eu holau.	<b>Ionawr 2019</b>
Creu system cylchdroi grwpiau	<b>Medi 2018</b>	<b>SR + ER + Staff CS</b>	-	Bydd y plant yn gweithio'n brysur yn holl weithgareddau'r ardaloedd dysgu a chael ystod eang o brofiadau gwerthfawr.	<b>Hydref 2018</b>
Llais y plant i arwain y dysgu – dewis thema	<b>Medi 2018</b>	<b>SR + ER + Staff CS</b>	-	Bydd y staff yn gwrando ar farn y plant wrth ddewis thema. Gyda'r plant yn dewis y thema bydd mwy oddiddordeb gan y plant i wybod a dysgu mwy am y thema.	<b>Tymhorol</b>
Plant i ddewis cwestiwn yr wythnos	<b>Medi 2018</b>	<b>SR + ER + Staff CS</b>	-	Bydd y plant yn nodi'r hyn mae nhw eisiau darganfod ac ymchwilio am y thema drwy lunio cwestiwn mawr yr wythnos. Bydd gweithgareddau'r wythnos yn deillio o frwdfrydedd y plant i ateb y cwestiwn.	<b>Tymhorol</b>
Staff i gynllunio ar y cyd a phawb a chyfrifoldeb gwahanol wrth gynllunio	<b>Medi 2018</b>	<b>SR + ER + Staff CS</b>	<b>Cyfarfodydd Staff</b>	Ar ddydd Iau / Gwener bydd y plant yn trafod gyda'r staff y cwestiwn mawr. Bydd y staff wedyn yn cynllunio gweithgareddau i gydfynd â'r cwestiwn gyda phob aelod o staff yn cynllunio ar gyfer ardaloedd gwahanol.	<b>Tymhorol</b>
Cynllunio gwaith y thema ar gyfer gweithgareddau yn y dosbarth ac yn yr ardal tu allan.	<b>Medi 2018</b>	<b>SR + ER + Staff CS</b>	<b>Cyfarfodydd Staff</b>	Bydd y staff yn cynllunio i gynnwys yr ardal tu allan fel rhan amlwg o waith y thema a'r cwestiwn mawr.	<b>Medi 2018</b>

## Cynllun Gwella Pen Barras 2018-19 Blaenoriaeth 2

<b>Blaenoriaeth 2 – Datblygu medrau ysgrifennu plant CA2 drwy ymestyn a hyrwyddo eu profiadau dysgu ( bloc adeiladu 3 , Cwricwlwm i Gymru-cwricwlwm am oes)</b>					
<b>Pam dewis y flaenoriaeth yma?</b> Datblygu ar y gwaith a wnaed flwyddyn diwethaf (blaenoriaeth 3 CDY 2017-18 “ <i>Meithrin ein disgyblion i fod yn ddysgwyr mwy annibynnol</i> ”). <i>Trosglwyddo eu gallu i weithio’n annibynnol i greu darnau ysgrifenedig o safon uchel.</i>					
<b>Targed</b> – Canran o blant sy’n cael lefel 5 mewn ysgrifennu i godi o 33% i 40% yn y Gymraeg, ac o 35% i 40% yn Saesneg.					
<b>Arweinydd â chyfrifoldeb am y flaenoriaeth yma-</b> H Williams + E Parry <b>Aelodau is-bwyllgor blaenoriaeth</b> – Staff Cyfnod Allweddol 2					
Ardal i’w ddatblygu	Dyddiad	Cyfrifoldeb	Hyfforddiant / Cost	Meini Prawf Llwyddiant	Dyddiad Gwerthuso
Llais y plant i arwain y dysgu – dewis thema	<b>Medi 2018</b>	<b>Staff CA2</b>	-	Bydd y staff yn gwrandao ar farn y plant wrth ddewis thema. Gyda’r plant yn dewis y thema bydd mwy o ddiddordeb gan y plant i wybod a dysgu mwy am y thema.	<b>Tymhorol</b>
Plant i ddewis cwestiwn yr wythnos	<b>Medi 2018</b>	<b>Staff CA2</b>	-	Bydd y plant yn nodi’r hyn mae nhw eisiau darganfod ac ymchwilio am y thema drwy lunio cwestiwn mawr yr wythnos. Bydd gweithgareddau’r wythnos ganlynol yn deillio o frwdfrydedd y plant i ateb y cwestiwn. Bydd safon y cyflwyniadau yn well.	<b>Tymhorol</b>
Sicrhau bod y plant yn cael eu cyflwyno i wahanol fathau o ysgrifennu.	<b>Medi 2018</b>	<b>Staff CA2</b>	-	Bydd athrawon yn modelu ac enghreifftio gwahanol fathau o ysgrifennu a sicrhau bod plant yn gwybod beth yw rhinweddau pob “genres”.	<b>Tymhorol</b>
Dilyn cynllun o’r mathau o ysgrifennu dylid eu cyflwyno i blant ymhob blwyddyn.	<b>Medi 2018</b>	<b>Staff CA2</b>	-	Bydd pob plentyn yn gludo yn eu llyfrau, rhestr o’r gwahanol fathau o ysgrifennu y byddant yn ymdrin â hwy trwy’r flwyddyn, gan sicrhau bod y plant wedi profi ystod ac amrywiaeth eang o gyfleoedd ysgrifennu.	<b>Mehefin 2019</b>
Rhoi cyfleoedd i blant o bryd i’w gilydd, ddewis y math o ysgrifennu maent am gyflwyno eu gwaith.	<b>Medi 2018</b>	<b>Staff CA2</b>	-	Bydd y plant yn fwy brwdfrydig wrth eu gwaith a bydd hyn yn ei dro yn arwain at safonau uwch.	<b>Tymhorol</b>
Athrawon i fodlu iaith dda, a chyflwyno patrymau iaith a gramadegol yn gyson.	<b>Medi 2018</b>	<b>Staff CA2</b>	-	Bydd safon cyflwyniadau ysgrifenedig yn codi.	<b>Tymhorol</b>
Cyflwyno a chyfeirio at y Bin Bratiaith ymhob dosbarth.	<b>Medi 2018</b>	<b>Staff CA2</b>	-	Bydd y plant yn defnyddio ystod gynyddol o batrymau iaith gywir ar lafar ac yn ysgrifenedig.	<b>Tymhorol</b>
Pwysleisio CAAG ymhob tasg ysgrifennu (cysyllteiriau, atalnodi, agoriadau, gwefreiriau)	<b>Medi 2018</b>	<b>Staff CA2</b>	-	Bydd safonau yn codi a gwaith ysgrifenedig y plant yn cael ei uwchlefelu.	<b>Hydref 2018</b>

Ardal i'w ddatblygu	Dyddiad	Cyfrifoldeb	Hyfforddiant / Cost	Meini Prawf Llwyddiant	Dyddiad Gwerthu so
Mynychu gweithdai a bod yn rhan o brosiect Shirley Clarke.	<b>Medi 2018</b>	<b>ME, AH</b>	<b>ME, AH £1,000</b>	Bydd ME a AH yn dysgu am ddulliau addysgu sy'n cael y gorau o blant. Bydd strategaethau newydd yn cael eu cyflwyno yn y dosbarth a'r plant yn datblygu eu medrau ysgrifrennu.	<b>Mehefin 2019</b>
Datblygu'r defnydd o bartneriaid trafod ymhob dosbarth.	<b>Medi 2018</b>	<b>Staff CA2</b>	<b>Cyfarfod ydd staff i raeadru gwybodaeth</b>	Datblygu dysgwyr annibynnol a hyderus drwy drafod, darllen a chywiro gwaith ei gilydd, a chanfod strategaethau eu hunain i wella gwaith.	<b>Mehefin 2019</b>
Datblygu syniadau ac addysgeg Shirley Clarke yn unol â chyrsgiau ac arweiniad GWE.	<b>Medi 2018</b>	<b>Staff CA2</b>	-	Bydd y plant yn datblygu eu sgiliau o fod yn ddysgwyr annibynnol, ac yn cynyddu safonau iaith oherwydd yr ymyriadau hyn.	<b>Mehefin 2019</b>
HW i fynychu cyfarfodydd Arweinwyr Llythrennedd (GwE)	<b>Medi 2018</b>	<b>HW</b>	<b>£300</b>	Bydd cyfle i HW gydweithio gyda ysgolion eraill a rhannu arfer da. Bydd staff CA2 yn cael cyfleoedd i dreialu strategaethau dysgu newydd.	<b>Tymhorol</b>
Staff i osod targedau personol addas a heriol i blant.	<b>Medi 2018</b>	<b>Staff CA2</b>	-	Bydd y plant yn ymwybodol o'r hyn sydd angen ei wneud i wella gwaith.	<b>Hydref 2018</b>
Addasu polisi marcio'r ysgol.	<b>Medi 2018</b>	<b>Staff CA2</b>	<b>Cyfarfod ydd staff</b>	Bydd staff a'r plant yn gyson wrth gywiro a chyfeirio plant at y camau nesaf i wella eu gwaith.	<b>Mehefin 2019</b>
Cyflwyno Pinc Perffaith a Gwyrdd Gwella wrth farcio gwaith iaith y plant.	<b>Medi 2018</b>	<b>Staff CA2</b>	-	Bydd y plant yn ymfalchïo yn eu llwyddiant ac yn deall sut i wella eu gwaith.	<b>Mehefin 2019</b>
Monitro gwersi llythrennedd, a monitro trawsdoriad o lyfrau dysgwyr CA2.	<b>Medi 2018</b>	<b>Staff CA2</b>	-	Bydd y staff a'r llywodraethwyr yn ymwybodol o'r hyn sydd yn ddisgwyliedig o'u hunain ac o'i gilydd.	<b>Tymhorol</b>
Dathlu gwaith da y plant	<b>Medi 2018</b>	<b>Staff CA2</b>	-	Bydd plant yn cael mwy o gyfleoedd i rannu eu gwaith gyda phlant y dosbarth ac mewn gwasanaethau. Bydd y plant yn ymfalchïo yng ngwaith eu hunain ac eraill ac yna'n cael eu hysbrydoli i wella eu cyflwyniadau.	<b>Hydref 2018</b>
Staff i ôl gynllunio.	<b>Medi 2018</b>	<b>Staff CA2</b>	-	Bydd staff yn cofnodi yr hyn maent wedi gyflawni yn ystod yr wythnos / pythefnos. Golyga hyn bod rhyddid i athrawon wrando ar lais y plentyn a dilyn trywydd y plant yn hytrach na gwneud gweithgareddau sydd wedi eu cynllunio'n fanwl.	<b>Hydref 2018</b>
Cynnwys enghreifftiau o waith ysgrifenedig plant yn y ffeil gynllunio.	<b>Medi 2018</b>	<b>Staff CA2</b>	-	Bydd y pennaeth yn gweld gwaith gorffenedig y plant yn hytrach na darllen yr hyn mae'r athrawon yn bwriadu cyflwyno i'r dosbarth.	<b>Hydref 2018</b>

## Cynllun Gwella Pen Barras 2018-19 Blaenoriaeth 3

### Blaenoriaeth 3 - Ymestyn y ddarpariaeth a phrofiadau ar gyfer cymhwysiant ddigidol ( datblygu ein cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, bloc adeiladu 4 , Cwricwlwm i Gymru-cwricwlwm am oes)

**Pam dewis y flaenoriaeth yma?** Blaenoriaeth cenedlaethol. Ers symud i'r adeilad newydd gyda rhwydwaith di-wifr cyflym dibynadwy, mae llawer mwy o gyfleoedd i ddatblygu medrau digidol y plant.

**Targed** – Datblygu medrau digidol y plant fel eu bod yn hyderus i gymhwyso'r medrau hyn yn drawsgwricwlaidd.

**Arweinydd â chyfrifoldeb am y flaenoriaeth yma** – M Edwards

**Aelodau is-bwyllgor blaenoriaeth** – ME,EP,AJ,SE,EO,CR

Ardal i'w ddatblygu	Dyddiad	Cyfrifoldeb	Hyfforddiant / Cost	Meini Prawf Llwyddiant	Dyddiad Gwerthuso
Archebu adnoddau TGCH – 70 Chromebooks, meddalwedd Purple Mash, 30 Ipad, Troli, Sgriniau Gwyrdd a Gliniaduron newydd i staff.	<b>Medi 2018</b>	<b>M.LI.J M.E</b>	<b>£30,000</b>	Bydd y ddarpariaeth newydd yn galluogi bod y plant yn cael mwy o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau TGCH.	<b>Hydref 2018</b>
Addasu cynlluniau Fframwaith Cymhwyster Digidol	<b>Medi 2018</b>	<b>M.E.</b>	<b>£200</b>	Sicrhau bod y staff yn ymwybodol pa brofiadau a gweithgareddau TGCH sydd angen eu cyflwyno i'r plant.	<b>Tachwedd 2018</b>
Cynnal Awdit sgiliau Staff	<b>Medi 2018</b>	<b>M.E.</b>	-	Adnabod manau i'w datblygu a chynnig hyfforddiant i ddiwallu'r anghenion.	<b>Tachwedd 2018</b>
Cynnal Awdit Offer TGCH	<b>Medi 2018</b>	<b>M.E.</b>	<b>£200</b>	Adnabod pa offer sydd angen eu prynu.	<b>Tachwedd 2018</b>
Creu Cynllun Gwariant 3 mlynedd	<b>Tachwedd 2018</b>	<b>M.E.</b>	-	Bydd y cynllun yn blaenoriaethu gwariant yr ysgol ar offer TGCh.	<b>Mehefin 2019</b>
Trefnu/Amserlennu hyfforddiant staff neu ddatblygiad proffesiynol	<b>Medi 2018</b>	<b>M.E.</b>	<b>£1,200</b>	Bydd staff yn derbyn hyfforddiant ac yn datblygu sgiliau newydd a dod yn fwy hyderus i gyflwyno'n effeithiol y Fframwaith Cymhwyster Digidol i'r plant.	<b>Mehefin 2019</b>
Rhannu arfer dda o fewn yr ysgol	<b>Hydref 2018</b>	<b>M.E.</b>	-	Bydd y staff yn dysgu oddi wrth eu gilydd.	<b>Mehefin 2019</b>
Cyfarfod Staff / Is-Bwyllgor blaenoriaeth 3 i drafod codi safonau plant.	<b>Medi 2018</b>	<b>ME,EP,AJ,S E,EO,CR</b>	-	Sicrhau fod penderfyniadau ysgol gyfan yn cael eu gweithredu.	<b>Tymhorol</b>
Amserlennu Teithiau dysgu Staff a Llywodraethwyr	<b>Tachwedd 2018</b>	<b>M.E.</b>	-	Staff a Llywodraethwyr yn ymgysgu'r ysgol a safonau a medrau TGCH y plant.	<b>Tymhorol</b>
Arsylwi gwersi TGCH	<b>Tach/Rhag 2018</b>	<b>M.E.</b>	<b>£200</b>	Sicrhau fod y ddarpariaeth a'r addysgu yn dda.	<b>Tymhorol</b>

<b>Ardal i`w ddatblygu</b>	<b>Dyddiad</b>	<b>Cyfrifoldeb</b>	<b>Hyfforddiant / Cost</b>	<b>Meini Prawf Llwyddiant</b>	<b>Dyddiad Gwerthuso</b>
Amserlennu Cyd-lynnnydd TGCH i graffu ar waith plant	<b>Tach/Rhag 2018</b>	<b>M.E.</b>	<b>£200</b>	Sicrhau fod safonau y plant a medrau TGCH yn dda.	<b>Tymhorol</b>
Dewis ac hyfforddi Arweinwyr Digidol yr ysgol	<b>Medi 2018</b>	<b>M.E ac Athrawon yr Ysgol</b>	-	Bydd yr Arweinwyr Digidol yn helpu plant y dosbarth I ddysgu ac ymarfer medray TGCH.	<b>Hydref 2018</b>
Staff i addysgu`r plant i fod yn ddysgwyr annibynnol wrth ddefnyddio adnoddau TGCH	<b>Medi 2018</b>	<b>M.E ac Athrawon yr Ysgol</b>	-	Bydd y plant yn hyderus wrth ddefnyddio a chymhwyso eu medrau TGCH yn annibynnol.	<b>Rhagfyr 2018</b>
Athrawon i gynllunio gweithgareddau TGCH ar draws y cwricwlwm.	<b>Medi 2018</b>	<b>M.E ac Athrawon yr Ysgol</b>	-	Y plant yn defnyddio a cymhwyso eu medrau TGCH yn drawsgwricwlaidd.	<b>Hydref 2018</b>
Creu cysylltiadau a rhannu arfer dda gyda ysgolion lleol – Ysgol Bro Gwydir, Bro Cinmeirch a Twm o`r Nant.	<b>Hydref 2018</b>	<b>M.E.</b>	<b>£200</b>	Rhannu syniadau ac arfer dda er mwyn cynnig mwy o brofiadau a cyfleoedd i`r plant ddatblygu eu medrau TGCH.	<b>Mehffin 2019</b>
Arweinwyr Digidol Ysgol Pen Barras yn cyd-weithio ac Arweinwyr Digidol Ysgol Twm o`r Nant	<b>Rhag 2018</b>	<b>M.E.</b>	<b>£200</b>	Plant yn creu cysylltiad agos i ddatblygu prosiectau newydd a rhannu arfer dda.	<b>Mehffin 2019</b>



# Cynllun Gwella Pen Barras 2018-19

## Blaenoriaeth 4

### Blaenoriaeth 4 - Datblygu ymhellach ein systemau ADY i gydfynd â'r rheoliadau newydd (ymestyn a hyrwyddo profiadau dysgwyr, bloc adeiladu 4 , Cwricwlwm i Gymru-cwricwlwm am oes)

**Pam dewis y flaenoriaeth yma?** Mae angen diweddarau cynlluniau a systemau ADY yn dilyn newidiadau cenedlaethol. Mae angen ail-strwythuro ein staff ac amserlenni grwpiau cymorth ac ymyrraeth yn sgil gostyngiad yn y gyllideb a chynnydd yn y nifer o blant ADY trwy'r ysgol.

**Targed** – Bydd pob aelod o staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a bydd plant ADY yn derbyn y cymorth priodol i ddiwallu eu hanghenion a chyflawni eu potensial.

**Arweinydd â chyfrifoldeb am y flaenoriaeth yma** – A Hughes

**Aelodau is-bwyllgor blaenoriaeth** – AH,MT,EO,AV,JF,BE, ET,GM

Ardal i'w ddatblygu	Dyddiad	Cyfrifoldeb	Hyfforddiant / Cost	Meini Prawf Llwyddiant	Dyddiad Gwerthuso
Rheoliadau newydd – mynychu cyfarfodydd a hyfforddiant ar y ddeddf ADY newydd.	<b>Medi 2018</b>	<b>AH</b>	<b>£400</b>	Bydd y CADY yn ymwybodol o'r newidiadau ac yn rhoi adborth i'r staff am ddatblygiadau	<b>Tymhorol</b>
Sicrhau bod Proffil Unigol yn weithredol ar gyfer pob plentyn sydd yn derbyn cymorth Ysgol a Mwy	<b>Medi 2018</b>	<b>AH</b>	<b>£600</b>	Bydd Proffil Unigol pob plentyn yn amlinellu yn gryno anghenion ac yn amlygu i'r staff pa gymorth sydd ei angen. Bydd hyn yn hwyluso'r broses o drosglwyddo gwybodaeth o un iathro i'r llall.	<b>Mehefin 2019</b>
Adolygu ac addasu'r Polisi ADY	<b>Medi 2018</b>	<b>MJ/AH</b>	-	Bydd y Polisi ADY y adlewyrchu'r rheoliadau newydd	<b>Mehefin 2019</b>
Hyfforddi staff ar sut i osod targedau Cynlluniau Addysg Unigol (CAU)	<b>Hydref 2018</b>	<b>AH</b>	-	Bydd y staff yn hyderus wrth osod targedau realistig a mesuaradwy i'r plant sydd ar CAU.	<b>Mehefin 2019</b>
Gwneud awdit manwl o anghenion ADY plant yr ysgol.	<b>Hydref 2018</b>	<b>AH</b>	<b>£200</b>	Bydd plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael eu hadnabod a'r ddarpariaeth briodol mewn lle ar eu cyfer.	<b>Tymhorol</b>
Amserlennu grwpiau ymyrraeth/cymorth/cefnogaeth ar gyfer y plant ADY.	<b>Medi 2018</b>	<b>AH</b>	<b>£200</b>	Bydd y plant ADY yn derbyn y cymorth a chefnogaeth briodol.	<b>Tymhorol</b>
Mapio allan y ddarpariaeth ADY i'w rannu gyda swyddogion Sir Ddinbych a PLASC.	<b>Medi 2018</b>	<b>AH</b>	<b>£200</b>	Byddwn yn cael ein hariannu gan Sir Ddinbych er mwyn diwallu anghenion unigolion plant yn ôl yr hyn anodwyd yn y data PLASC.	<b>Ionawr 2019</b>
Amserlennu staff ar gyfer grwpiau ymyrraeth a chefnogaeth i unigolion.	<b>Medi 2018</b>	<b>Tim Rheoli</b>	-	Bydd y staff yn ymwybodol o'u dyletswyddau a chefnogaeth yn cael ei roi i blant yn ôl yr angen.	<b>Tymhorol</b>
Creu llyfryn gwybodaeth ADY i'r staff	<b>Tachwedd 2018</b>	<b>AH</b>	<b>£200</b>	Bydd y llyfryn yn rhoi trosolwg i'r staff o rhai o brif anghenion plant. Bydd hyn o gymorth i'r staff wrth drafod gyda'r CADY anghenion y plant	<b>Hydref 2018</b>

Outreach yn dod i gefnogi cymorthyddion sydd yn gweithio hefo plant ASD	<b>Hydref 2018</b>	<b>AH</b>	-	Bydd y staff yn fwy hyderus wrth gyflwyno strategaethau dysgu a rheoli ymddygiad plant penodol.	<b>Mehefin 2019</b>
Staff i ymweld â Ysgol Plas Brondyffryn i arsylwi gwersi a dysgu am strategaethau gweithio hefo plant ASD	<b>Ionawr 2019</b>	<b>AH</b>	<b>£600</b>	Bydd y staff yn gallu gweithredu rhai strategaethau penodol fel bod y plant yn ymdopi'n well o fewn yr ysgol.	<b>Ionawr 2019</b>
CADY i fynd ar weithdai PASS	<b>Hydref 2018</b>	<b>AH</b>	<b>£200</b>	Ar ôl i'r plant gwblhau'r holiadur PASS bydd y CADY a'r staff yn dadansoddi'r canlyniadau a chynnig cymorth i'r plant hynny sydd yn bryder i ni yn yr ysgol	<b>Mehefin 2019</b>
CADY i fynychu cyfarfodydd CADY Sir Ddinbych	<b>Tymhorol</b>	<b>AH</b>	<b>£200</b>	Bydd y CADY yn derbyn gwybodaeth am ADY ac yn rhannu arfer dda	<b>Tymhorol</b>
CADY i fynych cyfarfodydd clwstwr rheolaidd yn Ysgol Bryn Hyfryd	<b>Tymhorol</b>	<b>AH</b>	<b>£200</b>	Bydd holl ysgolion y clwstwr yn cysoni eu systemau ADY a fydd yn hwyluso y pontio rhwng CA2 i CA3 i blant ADY	<b>Tymhorol</b>
Cyfarfodydd rheolaidd gyda chydlynnydd Ysgol y Llys a Bro Cinmeirch	<b>Tymhorol</b>	<b>AH</b>	<b>£200</b>	Bydd syniadau ac arfer dda yn cael u rhannu	<b>Tymhorol</b>
Cyfarfodydd staff rheolaidd i drafod ADY	<b>Tymhorol</b>	<b>AH</b>	-	Bydd y staff yn cynllunio gweithgareddau gan ystyried anghenion ADY plant eu dosabrth	<b>Tymhorol</b>
CADY i arwain ar flaenoriaeth 4 yn y Cynllun Datblygu Ysgol	<b>Medi 2018</b>	<b>AH</b>	-	Bydd y CADY yn chwarae rôl strategol a rheolaethol er mwyn sicrhau bod y pwyntiau gweithredu yn cael ei cwrdd	<b>Mehefin 2019</b>
Creu is-bwyllgor blaenoriaeth 4 yn y CDY	<b>Medi 2018</b>	<b>MJ</b>	-	Bydd 7 aelod o staff yn cyfarfod i werthuso cynydd blaenoriaeth 4 yn y CDY	<b>Tymhorol</b>
Cymhorthydd ADY i hyfforddi eraill i gyflwyno PAT i blant	<b>Hydref 2018</b>	<b>JF</b>	-	Bydd 2 gymhorthydd arall yn hyderus i gyflwyno PAT mewn sesiynnau i blant i ddatblygu sgiliau darllen Saesneg	<b>Mehefin 2019</b>
Cymhorthydd ADY i hyfforddi eraill i gyflwyno Grŵp Naritif i blant	<b>Hydref 2018</b>	<b>FF J</b>	-	Bydd 1 cymhorthydd arall yn hyderus i gyflwyno sesiynnau Grwp Naritif mewn i blant i ddatblygu eu sgiliau trafod	<b>Tymhorol</b>
Tracio cynnydd plant ADY yn dymhorol gan ddefnyddio INCERT ac asesiadau eraill	<b>Tymhorol</b>	<b>AH</b>	-	Bydd y CADY yn cyfarfod gyda athrawon a dadansoddi data er mwyn darparu'r gefnogaeth briodol	<b>Tymhorol</b>
Adolygu amserlen cefnogaeth i blant ADY	<b>Tymhorol</b>	<b>AH</b>	-	Bydd rhai plant yn gorffen unrhyw gefnogaeth ADY ar ôl gwneud cynydd digonol, tra bydd eraill yn cael cei cyflwyno i gefnogaeth ychwanegol am y tro 1af	<b>Tymhorol</b>
Bydd y CADY yn trafod gyda staff ac yn arsylwi sesiynnau cefnogaeth ADY	<b>Hydref 2018</b>	<b>AH</b>	-	Bydd y CADY yn cynnig cefnogaeth i'r staff ac awgrymu newidiadau/strategaethau dysgu fel bo angen	<b>Tymhorol</b>
Arweinydd ADY ar y corf llywodraethwyr i wneud teithiau dysgu ADY	<b>Hydref 2018</b>	<b>MJ/BO-E</b>	-	Bydd y llywodraethwyr yn ymwybodol o systemau'r ysgol ac ar law i gynnig cymorth	<b>Tymhorol</b>
Adolygu ein systemau asesu mewnol	<b>Rhagfyr 2018</b>	<b>AH</b>	-	Bydd pob aelod o staff yn gweithredu'r un profion ac asesiadau er mwyn cael cysondeb a chymhariaeth gwaelodlin teg wrth benderfynu pa gymorth i roi i unigolion.	<b>Mehefin 2019</b>

# Cynllun Gwella Pen Barras 2018-19

## Blaenoriaeth 5

### Blaenoriaeth 5 – Cynllunio mwy bwriadus ar gyfer Datblygiad Proffesiynol staff ( bloc adeiladu 7 , meithrin gallu’r holl ymarferwyr ac arweinwyr,Cwricwlwm i Gymru-cwricwlwm am oes)

**Pam dewis y flaenoriaeth yma?** Ymateb i’r “Cwricwlwm i Gymru-cwricwlwm am oes” - mae angen galluogi’r gweithlu cyfan i fyfyrion ar ddulliau addysgegol a’u datblygu er mwyn meithrin gallu fel y bydd y cwricwlwm newydd yn ystyrlon ym mhob ystafell ddosbarth.

**Targed** – Bydd y staff yn cael eu hyfforddi a chael cyfle i rannu arfer da, er mwyn bod yn hyderus i gyflwyno’r cwricwlwm newydd a rhoi’r profiadau gorau bosib i’r plant.

**Arweinydd â chyfrifoldeb am y flaenoriaeth yma** – M Jones

**Aelodau is-bwyllgor blaenoriaeth** – MJ,SR,ME,AH,ER,OH,HW,NR,BH,FJ,GF

Ardal i’w ddatblygu	Dyddiad	Cyfrifoldeb	Hyfforddiant / Cost	Meini Prawf Llwyddiant	Dyddiad Gwerthuso
Y staff i ymgysgu â’r ddogfen “Cwricwlwm i Gymru-cwricwlwm am oes”.	Medi 2018	MJ + Staff	Cyfarfodydd	Bydd y staff yn cynllunio gweithgareddau ar gyfer y plant fydd yn ymateb i’r 4 diben ac yn cyfoethogi profiadau dysgu’r plant.	Gorff 2019
Y staff i ymgysgu â Safonau Proffesiynol newydd Llywodraeth Cymru.	Hydref 2018	MJ, ME + Staff	Cyfarfodydd Hyfforddiant £200	Bydd staff yr ysgol yn arddangos safonau proffesiynol uchel yn eu hymarfer gan sicrhau addysgeg effeithiol gyda gwerthoedd ac ymagweddau cyffredin.	Gorff 2019
Y staff i ddechrau mewngofnodi manylion ar y PasportDysgu Proffesiynol.	Tachwedd 2018	MJ	Cyfarfodydd	Bydd gan y staff gofnod cynhwysfawr o’u datblygiad proffesiynol.	Gorff 2019
Y staff i gofrestru gyda G6 ar wefan GwE er mwyn cael mynediad i gyfleoedd hyfforddi a datblygiad proffesiynol.	Hydref 2018	MJ + Staff	Cyfarfodydd	Bydd mwy o gyfleoedd i staff gael hyfforddiant a datblygiad proffesiynol o ansawdd da.	Gorff 2019
Bydd y staff y staff yn cofnodi eu hyfforddiant a gwerthuso’r effaith ar G6.	Hydref 2018	MJ + Staff	Cyfarfodydd	Bydd y staff yn ystyried y modd gorau o ddatblygu’n broffesiynol gan ystyried atebolrwydd ac oblygiadau’r hyfforddiant.	Gorff 2019
<b>1. Hyfforddiant/ datblygiad proffesiynol penodol</b>					
<b>Prosiect Shirley Clarke - GwE</b>					
Dau aelod o staff i fynychu cyfres o weithdai Shirley Clarke yn ystod y flwyddyn.	Medi 2018	ME+AH	Athrawon cyflenwol £1,000	Bydd ME a AH yn gweithredu’r hyn a ddysgwyd ar lawr y dosbarth. Byddant hefyd yn cydweithio gyda staff o ysgolion eraill i rannu arfer da.	Gorff 2019
Bydd plant dau ddosbarth CA2 yn arbrofi gyda dulliau dysgu newydd.	Hydref 2018	ME+AH	-	Wrth gyflwyno newid yn nhrefniant dosbarth a chyfres o weithgareddau, bydd y plant yn deall sut i asesu gwaith eu hunain a chyfoedion, a deall sut i wella eu gwaith eu hunain a dod y ddysgwyr annibynnol.	Gorff 2019

Ardal i'w ddatblygu	Dyddiad	Cyfrifoldeb	Hyfforddiant / Cost	Meini Prawf Llwyddiant	Dyddiad Gwerthuso
<b>Prosiect Ysgolion Creadigol</b>					
Y plant a staff B5 a 6 i ymgymryd â chyfres o weithdai gan Arwel Williams yn datblygu medrau ysgrifennu trwy gyfrwng Dylunio a Thechnoleg.	<b>Tachwedd 2018</b>	<b>BI 5 + 6</b>	<b>£6,000 Grant Y Cyngor Celfyddydau</b>	Bydd y plant yn cael profiadau gwerthfawr wrth ddylunio a chreu modelau yn ymwneud â thema'r tymor "Y Rhyfel Byd Cyntaf". Bydd y gwaith yn sail i ymarfer a datblygu eu medrau ysgrifennu ac uwch lefelu gwaith.	<b>Rhagfyr 2018</b>
<b>Prosiect datblygu sgiliau rhifedd haen uchaf plant CA2</b>					
Bydd cydlynnydd rhifedd yr ysgol yn rhan o weithgor yn edrych ar ddatblygu gwaith plant i lefel 6.	<b>Tachwedd 2018</b>	<b>ME</b>	<b>£500 Grant GwE</b>	Yn dilyn ymweliadau, gweithdai a sesiynau arfer da bydd gan ME well syniad o sut i gael mwy o blant B6 i gael lefel 6.	<b>Gorff 2019</b>
<b>2. Cydweithio ysgol i ysgol</b>					
<b>Ysgol Twm o'r Nant – Cyfres o ymweliadau a chyfarfodydd i rannu arfer da</b>					
Staff B1 + 2 i gyfarfod gyda R Thomas (ToN) i rannu syniadau am TGCh a gweithgareddau rhifedd a'r Fframwaith Ddigidol.	<b>Hydref 2018</b>	<b>SR, EO, AJ</b>	<b>Cyfarfodydd ar ol ysgol.</b>	Bydd yr athrawon yn cyflwyno amrywiaeth o weithgareddau diddorol fel bod y plant yn datblygu eu medrau TGCh ac agweddau o'r FfCD.	<b>Gorff 2019</b>
Arweinwyr Digidol y ddwy ysgol i gyfarfod yn rheolaidd i drafod a rhannu syniadau.	<b>Tachwedd 2018</b>	<b>ME</b>	<b>£400 Rhyddhau cydlynnydd TGCh</b>	Bydd plant yn rhannu syniadau ac yna'n dod yn ol i'r ysgol i gyflwynogweithgareddau newydd i weddill y dosbarth. Bydd yr arweinwyr digidol yn datblygu eu hyder wrth "ddysgu" a gweddill y plant hefyd yn elwa'n fawr o'r profiad.	<b>Gorff 2019</b>
Staff y Blynnyddoedd cynnar i ymweld â'r ardal ddysgu tu allan yn Nhwm o'r Nant.	<b>Medi 2018</b>	<b>Staff y Cyfnod Sylfaen</b>	<b>£200 Cyflenwol</b>	Bydd staff y CS yn deall yn well sut i ddatblygu'r ardal tu allan o ran yr adnoddau i'w gwneud a'u prynu, a'r gweithgareddau i'w cynnwys yny yr ardaloedd.	<b>Hydref 2018</b>
Staff B3 i weld sut mae ToN yn cyflwyno heriau (cyfnod sylfaen eu natur) ym mlwyddyn 3.	<b>Hydref 2018</b>	<b>Athrawon B3</b>	<b>£300 Cyflenwol</b>	Bydd athrawon B3 yn cynllunio heriau diddorol ar gyfer y dosbarth gan hwyluso'r pontio rhwng y Cyfnod Sylfaen a blwyddyn 3.	<b>Gorff 2019</b>
<b>3. Datblygiad Proffesiynol o fewn Ysgol Pen Barras</b>					
<b>Staff</b>					
Amserlennu teithiau dysgu	<b>Medi 2018</b>	<b>MJ, Tim Rheoli</b>	-	Bydd y staff yn cael cyfle i grwydro'r dosbarthiadau, hoi ei gilydd a rhannu arfer da. Bydd gwell syniad gan y staff o ran arddull a strategaethau dysgu a fydd yn ei dro yn hwyluso'r pontio o un dosbarth i'r llall.	<b>Gorff 2019</b>
Trefnu triawdau monitro	<b>Medi 2018</b>	<b>MJ, Tim Rheoli</b>	<b>£700</b>	Wrth weithio fel triawdadu (e.e 3 athro B5 a 6) bydd cyfle i staffio wyluo eu gilydd yn dysgu ac edrych ar y gwaith a gynhyrchwyd yn y dosbarthiadau eraill. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb o ran beth sy'n cael ei gyflwyno i'r plant a bydd rhannu arfer da yn fodd ddatblygu syniadau newydd er mwyn gwella gwaith plant.	<b>Gorff 2019</b>
Creu amserlen monitro ysgol gyfan	<b>Medi 2018</b>	<b>MJ, Tim Rheoli</b>	-	Bydd staff yn gwybod pa bryd bydd aelod o'r tim rheoli yn dod i arsylwi gwersi neu graffu ar waith plant. Bydd y staff yn arfer cael pobl yn arsylwi eu gwersi ac yn fodlon derbyn adborth ar sut i wella eu addysgu a chodi safonau.	<b>Gorff 2019</b>

Ardal i`w ddatblygu	Dyddiad	Cyfrifoldeb	Hyfforddiant / Cost	Meini Prawf Llwyddiant	Dyddiad Gwerthuso
Staff i fod yn rhan o is-bwyllgorau yn edrych ar flaenoriaethau yn y CDY	<b>Medi 2018</b>	<b>Staff</b>	-	Wrth fod yn rhan o is-bwyllgor yn edrych ar flaenoriaeth o`r CDY, byddant yn derbyn perchnogaeth o`r ffocws ac yn rhan allweddol o werthuso ac arfarnu`r cynnydd o fewn y flaenoriaeth.	<b>Tymhorol</b>
Cymorthyddion dosbarth i dderbyn cyfrifoldebau newydd i gynllunio ardaloedd dysgu a gweithgareddau.	<b>Medi 2018</b>	<b>Tim rheoli + Cymorthyddion</b>	-	Bydd staff yn cydweithio â`u gilydd i gynllunio gweithgareddau. Bydd cymorthyddion yn cymryd cyfrifoldeb am ardal benodol i drefnu gweithgareddau a heriau benodol. Bydd hyn yn rhoi perchnogaeth i`r staff feithrin eu harbenigedd, cryfhau`r ethos o weithio fel rhan o dim a chyfoethogi`r profiadu i blant.	<b>Tymhorol</b>
<b>Tim Rheoli</b>					
Pob aelod o`r tim rheoli i fod yn gyfrifol am lunio blaenoriaeth yn y CDY a sicrhau bod pwyntiau gweithredu ar waith.	<b>Medi 2018</b>	<b>MJ, Tim Rheoli</b>	<b>£200</b>	Bydd aelodau`r tim rheoli yn arwain ar flaenoriaeth. Bydd rhaid cynllunio`n fanwl rhaglen weithredu er mwyn sicrhau bod gofynion y flaenoriaeth yn cael eu cwrrd. Bydd aelodau`r TR yn datblygu sgiliau rheolaethol wrth lunio meysydd i`w datblygu yn strategol, rheoli staff, arwain a chynghori, monitro cynnydd a gwerthuso ac arfarnu pa mor lwyddiannus y bu`r gwahanol agweddau.	<b>Hydref 2018</b>
Tim rheoli i fonitro a gwerthuso`r cynnydd a wnaed yn erbyn pob blaenoriaeth yn y CDY.	<b>Hydref 2018</b>	<b>MJ, Tim Rheoli</b>	-	Wrth fonitro a gwerthuso`r cynnydd bydd y tim rheoli yn rhan allweddol o hunan arfarniad yr ysgol a fydd yn ei dro yn bwydo mewn i gynlluniau gwelliant pellach.	<b>Tymhorol</b>
Amserlen monitro i`r Tim Rheoli.	<b>Medi 2018</b>	<b>MJ, Tim Rheoli</b>	<b>£400</b>	Wrth ddilyn amserlen monitro bydd y TRh yn ymwybodol o`u dyletswyddau ac yn cyfrannu`n strategol at godi safonau a chydweithio gyda staff i ddatblygu agweddau penodol.	<b>Tymhorol</b>
<b>Llywodraethwyr</b>					
Amserlennu teithiau dysgu a chyfarfodydd gyda chydlynwyr.	<b>Medi 2018</b>	<b>Llywodraethwyr</b>	-	Wrth ddilyn amserlen monitro bydd y llywodraethwyr yn ymwybodol o`u dyletswyddau ac yn cael darlun clir o sut mae`r ysgol yn gweithredu o ddydd i ddydd.	<b>Tymhorol</b>
Llywodraethwyr i dderbyn cyfrifoldebau newydd ar gyfer agwedd benodol.	<b>Medi 2018</b>	<b>Llywodraethwyr</b>	-	Bydd llywodraethwyr yn cymryd cyfrifoldeb am ardal benodol gan gydweithio gyda`r cydlynwdd i fedru adrodd yn ôl ar ddatblygiadau i`r corff llawn.	<b>Tymhorol</b>
Amserlennu cyfarfodydd i graffu ar waith plant	<b>Medi 2018</b>	<b>Llywodraethwyr</b>	-	Bydd llywodraethwyr yn mynd ar deithiau dysgu, cyfarfod plant a staff a chraffu ar waith plant. Bydd y llywodraethwyr yn medru safoni a chymedroli gwaith plant gan roi cyd destun i drafodaethu`r llywodraethwyr am safonau.	<b>Tymhorol</b>

### **Blaenoriaethau ar gyfer 2019-2020 (i'w cadarnhau)**

1. Ymgorffori'r 4 diben i'r cwricwlwm.
2. Cyflwyno'r cwricwlwm newydd a chyfarwyddo gyda'r deilliannau newydd
3. Adolygu ein trefniannau asesu ac asesu ar gyfer dysgu
4. Codi safonau llafar plant yr ysgol
5. Parhau i feithrin ein plant i fod yn ddysgwyr annibynol

### **Blaenoriaethau ar gyfer 2020-2021 (i'w cadarnhau)**

1. Ymgorffori'r 6 maes dysgu newydd i waith y dosbarth
2. Adolygu'r ddarpariaeth ADY, MAT a Lles Plant
3. Sicrhau cymunedau dysgu effeithiol
4. Codi safonau rhifedd gweithdrefnol
5. Codi safonau darllen plant yr ysgol

### **Blaenoriaethau ar gyfer 2021 - 2022 (i'w cadarnhau)**

1. Datblygu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol
2. Codi safonau rhifedd ymresymu
3. Codi safonau ysgrifennu plant yr ysgol
4. Asesu ar gyfer Dysgu

**Cynllun Gwella 2017-18**  
**Ysgol Pen Barras – fersiwn y disgybl.**

**“Byddwn yn ceisio datblygu’r  
agweddau yma eleni”**

